Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Deddfwriaeth a pholisi carbon niwtral yng Nghymru

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/deddfwriaeth-a-pholisi-carbon-niwtral-yng-nghymru am y fersiwn diweddaraf.

Mae nifer o gyfreithiau a pholisïau sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Dyma ganllaw i rai o'r deddfau a'r polisïau hyn:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: O dan y Ddeddf, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor y penderfyniadau a wnânt ar genedlaethau'r dyfodol. Byddwn ni'n atebol i'r Ddeddf o fis Ebrill 2024. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi eu gweledigaeth hirdymor a'r dull y maen nhw'n bwriadu ei gymryd dros y saith mlynedd nesaf yn Cymru Can. Mae'r cynllun yn cynnwys sicrhau bod holl gyrff cyhoeddus Cymru yn cyflawni eu nodau sero net a'u nodau cadarnhaol i natur erbyn 2030
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: O dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a phennu cyllidebau carbon.
- Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018: Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r allyriadau net uchaf yng Nghymru ar gyfer y cyfnodau 2016 i 2020 a 2021 i 2025.
- Cymru Sero Net: Ym mis Mawrth 2021, cytunodd y Senedd y byddai Cymru'n dod yn garbon niwtral erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei chynlluniau ar gyfer sector cyhoeddus carbon sero net yng Nghymru erbyn 2030.